

# Nid chwaraewr goddefol

*“...taenais gwr fy mantell drosot a chuddio dy noethni.” (adn. 8)*

## Beth am ddarllen Eseciel 16:1–14 ac yna myfyrio

Hwyrach eich bod yn meddwl fod y sylw a wnes i ddoe – fod gweithred Ruth o ofyn i Boas daenu cwr ei fantell drosti yn ffordd symbolaidd o ofyn iddo ei phriodi – braidd yn annhebygol. Ond fe ddefnyddir yr iaith yma eto yn ein testun heddiw yng nghyd-destun cyfamod priodas Duw ag Israel: “deuthum heibio i ti drachefn a sylwi arnat, a gweld dy fod yn barod am gariad; taenaist gwr fy mantell drosot a chuddio dy noethni.” Drwy ei gweithred dangosai Ruth ei bod yn gosod ei hun o dan amddiffyniad Boas: “Taena gwr dy fantell [amddiffynnol] dros dy forwyn, oherwydd yr wyt ti’n berthynas agos.”

Ceir tystiolaeth o’r arfer yma gan esbonwyr megis Edward F. Campbell, sy’n tynnu sylw at yr arfer hynafol Arabaidd o ddodi mantell dros ddynes fel symbol o’r hawl i’w phriodi. Dywedwyd wrthyf yn ddiweddar pan oeddwn yn Bahrain fod rhai Arabiaid yn dal i ymarfer yr arwydd symbolaidd yma wrth ddewis gwraig.

Mi ddywedaf i eto: er mwyn i Ruth fod yn rhan o stori Duw doedd hi ddim yn dilyn fod yn rhaid iddi fod yn chwaraewraig oddefol. Er mai dynes ddŵad oedd hi (sonnir amdani chwe gwaith fel y Foabes), ac wedi ei geni y tu allan i ffiniau cenedl cyfamod Israel, fe ddaw hi i ganol symudiad y stori wrth iddi gamu allan o’r rôl a roddwyd iddi gan eraill; ac yn ogystal â gwneud yr hyn a gynghorodd Naomi iddi ei wneud, mae hi’n cymryd y cam cyntaf ac yn siarad ei llinellau ei hun. O’r herwydd, mae hi’n cymryd ei lle mewn hanes fel hen-nain y Brenin Dafydd ac fel un o hynafiaid y Meseia.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Sam. 17:32–40; 17:48–50

2 Bren. 5:1–3; 5:13–14

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd canlyniad Dafydd yn gwrthod cyngor Saul?
2. Beth ddigwyddodd pan fu i forwyn gwraig Naaman siarad allan?

## Gweddi

O Dad, er fy mod yn ddiolchgar i’r rheiny sydd wedi fy hyfforddi mewn pethau ysbrydol, helpa fi i beidio ag ailadrodd dywediadau pobl eraill yn unig ond, pan fo’r angen, i mi gamu ymlaen a siarad fy llinellau fy hun. Yn enw Iesu. Amen.